Office for Product
Safety & Standards

**PRYNWCH YN DDIOGEL
BYDDWCH YN DDIOGEL**




# Siopa'n ddiogel ar farchnadoedd ar-lein

## Gall prynu ar-lein fod yn ffordd gyfleus o ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnoch.

Gydag ychydig wiriadau syml, gallwch siopa'n fwy diogel a theimlo'n fwy hyderus am eich dewisiadau.

(26086-Welsh-2) 31.280_DBT_OPSS_Online_Marketplaces_65+_A5 4pager_v2 FINAL.indd 2 13/02/2026 13:22:03




# Cyn ichi brynu

## ✓ Gwiriwch y gwerthwr

Edrychwch ar eu henw, eu lleoliad, ac ers faint maen nhw'n gwerthu ar y farchnadfa.

## ✓ Darllenwch adolygiadau'n ofalus


Chwiliwch am adolygiadau manwl sy'n sôn am ansawdd neu ddiogelwch y cynnyrch, nid sgoriau seren yn unig. Mae hefyd yn ddefnyddiol darllen rhai o'r adolygiadau negyddol.

## ✓ Gwiriwch yr wybodaeth am y cynnyrch

Dylai rhestriad dibynadwy gynnwys:

- disgrifiadau clir o'r cynnyrch
- cyfarwyddiadau neu rybuddion, lle bo'n berthnasol

## Chwiliwch am farciau diogelwch cydnabyddedig




Ar rai mathau o gynhyrchion mae angen marciau diogelwch fel:

- UKCA
- CE

## Edrychwch i weld a yw'r cynnyrch wedi cael ei adalw





Weithiau mae cynhyrchion â phroblemau diogelwch yn cael eu galw'n ôl. Gallwch wirio hyn drwy chwilio 'product recalls' ar **GOV.UK**.

## Pan fydd eich eitem yn cyrraedd:

- gwiriwch ei bod yn cyd-fynd â'r lluniau a'r disgrifiad ar-lein
- dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau diogelwch sydd wedi'u darparu

Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn iawn, stopiwch a chysylltwch â'r gwerthwr neu'r farchnadfa.

(26086-Welsh-2) 31.280_DBT_OPSS_Online_Marketplaces_65+_A5 4pager_v2 FINAL.indd 4 13/02/2026 13:22:04



**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i gov.uk/guidance/consumer-product-safety-advice-for-staying-safe neu sganiwch y cod QR:**

(26086-Welsh-2) 31.280_DBT_OPSS_Online_Marketplaces_65+_A5 4pager_v2 FINAL.indd 1 13/02/2026 13:22:04